## Y Profion Cenedlaethol

Mae’r profion blynyddol yma ar gyfer plant o Flwyddyn 2 i 9 ac yn seiliedig ar y FFramwaith. Eleni bydd profion Rhifedd [Prosesu ac Ymresymu Rhifyddol a Llythrennedd [Darllen] yn digwydd rhwng Mai 7fed a 14eg a byddwch yn derbyn amserlen ar eu cyfer. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am sgor safonol eich plentyn gan y Llywodraeth.

## The National Tests

These annual tests are for children in Year 2 to 9 and based on the Framework. This year there will be Numeracy Tests [Processes and Number Reasoning] and Literacy [Reading]. They will take place between May 7th and 14th and you will receive a timetable. You will receive reports on your child’s scores from the government.

## Gwefan yr Ysgol

Yn ystod Tymor yr Haf eleni bydd gwefan newydd yr ysgol yn dod yn fyw a bydd adran arni ar y Fframwaith yn ogystal a syniadau ynglyn a sut y gallwch chi helpu eich plentyn gartref.

## School Website

A new school website will be online during this year’s Summer Term and there will be a section about the Framework on it as well as ideas on how you can help your child at home.

# Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd

Gwybodaeth i Rieni

YSGOL BRO PLENYDD Y FFÔR

Information for Parents

# Literacy and Numeracy Framework

## Cefndir

Ers Medi 2013 mae'r Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd Genedlaethol yn statudol yn ysgolion Cymru ar gyfer pob plentyn o Flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 9 . Ei phwrpas yw sicrhau fod gwaith rhifedd a llythrennedd addas i oedran a gallu y plentyn yn cael ei blethu i bob pwnc / maes a ddysgir yn yr ysgol.

Yn Ysgol Bro Plenydd rydym wedi cychwyn ar y gwaith eleni o gynllunio yn fanwl i sicrhau bod cyfle i blant ymarfer a datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn nifer o gyd destunau a chyfle i ddatblygu'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm a thrwy'r ysgol. Mae'r plant yn cael dysgu y sgiliau hanfodol yn y gwersi iaith a mathemateg cyn eu hymarfer a'u cymhwyso i bynciau eraill.

## Background

Since September 2013 the National Literacy and Numeracy Framework has been statutory in Welsh schools for children from the Reception year to Year 9. Its purpose is to ensure that suitable literacy and numeracy skills are introduced to children, appropriate to their age and ability and that these skills are integrated into every part / area of the curriculum.

At Ysgol Bro Plenydd we have started planning in detail this year to ensure that there is opportunity for children to practice and develop literacy and numeracy skills across various subjects throughout the school. We teach the essential skills in language and maths lessons and then children apply them to tasks in other subjects.

## Dyma sut mae'r Fframwaith wedi ei rhannu :

## This is how the Framework has been arranged :

Fframwaith Lythrennedd Rhifedd

Literacy and Numeracy Framework

- Llythrennedd / Literacy
  - Llafaredd / Oracy
  - Darllen / Reading
  - Ysgrifennu / Writing
- Rhifedd / Numeracy
  - Ymresymu / Reasoning
  - Rhif / Number
  - Mesur / Measure
  - Data / Data

## Asesu a Thracio

O Fedi 2014 ymlaen byddwn yn cychwyn asesu a thracio cynnydd y plant yn sgiliau y Fframwaith drwy eu gwaith yn y dosbarth a thrwy eu canlyniadau yn y profion cenedlaethol. Trwy wneud hyn byddwn yn adnabod cryfderau a gwendidau ac yn gallu cynllunio'r camau nesaf ymlaen. Byddwch yn derbyn gwybodaeth mewn nosweithiau rhieni a thrwy adroddiadau tymhorol a blynyddol.

## Assessment and Tracking

From September 2014 we will be assessing and tracking children's progress in the Framework's skills through their classwork and performance in the National Tests. By doing this we will recognize strengths and weaknesses and will be able to plan the next steps ahead. You will receive information in parents' evenings and in term and annual reports.